SIR BENFRO

Mae **SIR BENFRO** yn rhoi hysbysiad ei bod yn bwriadu gwneud y Gorchymyn a ganlyn o dan adran 82, 83, 84 a 124 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd, fel a ganlyn:

GORCHYMYN UNO SIR BENFRO (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER) 2023 GORCHYMYN (DIWYGIAD RHIF 5) 2026

Drwy ddiwygio Gorchymyn Uno Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) 2023, effaith y cynigion fydd:

a) Cyflwyno terfynau cyflymder newydd, diwygio a/neu ddirymu terfynau cyflymder presennol ar y darnau hynny o ffordd a restrir yn yr Atodlenni i'r hysbysiad hwn.
b) Amnewid yr holl Atodlenni Map perthnasol â diwygiadau newydd.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig y mae'n berthnasol iddo, ynghyd â datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Neuadd y Sir, Freemens Way, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP.

Fel arall, gellir ei weld yn y ddolen ganlynol i'r wefan: www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-trraffig-ffyrdd.

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y sail dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy lenwi'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig, at y cyfeiriad isod erbyn y 16fed diwrnod o Fedi 2026. Dyfynnwch: **AMAL 2023-A6-26**

Dyddiedig yr 26fed diwrnod hwn o Awst 2026.

Sarah Oliver

Prif Swyddog Gwethrediadau Corfforaethol a Chydnerthedd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro

ATODLEN 1
TERFYN CYFLYMDER 20 MYA

Cyf.	Lleoliad a Ffordd		Hyd y ffordd
1.01.0	**SAUNDERSFOOT**		
	Ffordd C3076 Sandyhill		O bwynt 70 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Pharc Sandyhill, sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am 134 metr.
	Bryn Heulog		Holl Ffordd

ATODLEN 2
TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Cyf.	Lleoliad a Ffordd		Hyd y ffordd
2.01.0	**SAUNDERFOOT**		
	C3076		O bwynt 30 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r A478 sy'n ymestyn tua'r gogledd am 476 metr.

DATGANIAD RHESWM

Yr estyniad arfaethedig i'r 20mya presennol ar ffordd Sandyhill.

Mae'n ofynnol ymestyn y terfyn cyflymder 20mya ar y ffordd C3076 Sandyhill i gynnwys datblygiad Tai Newydd Bryn Heulog o fewn y terfyn diofyn trefol (20mya). O ganlyniad, bydd y 40mya cyfagos yn cael ei leihau o 134m.

GORCHYMYN UNO SIR PENFRO
(FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYNAU CYFLYMDER) 2023 (GWELLIANT RHIF 6) GORCHYMYN 2026 CYNGOR SIR PENFRO

Mae Cyngor Sir Penfro wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 82, 83, 84 a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y diwygiwyd ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad *inter alia* â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, gan hynny yn gwneud y gorchymyn canlynol;

1. Bydd Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) Sir Benfro 2023 yn cael ei ddiwygio trwy ychwanegu a dirymu'r Atodlenni presennol a'i ddisodli drwy hyn, fel y nodir yn Atodlenni 1,2 a 3.

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar ** **** 2026 a gellir ei enwi fel Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) 2023 (Diwygiad Rhif 6) Sir Benfro 2026.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn gymwys ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Heb ragfarn i ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed nac i unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anweithred cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, bydd Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) 2023 (Diwygiad Rhif 6) Sir Benfro 2026 yn dod i rym fel a ganlyn:

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 20 MYA

Cyf.	**Lleoliad a Ffordd**		**Hyd y ffordd**
1.01.0	**SAUNDERSFOOT**		
	Ffordd C3076 Sandyhill		O bwynt 70 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Pharc Sandyhill, sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am 134 metr.
	Bryn Heulog		Holl Ffordd

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Cyf.	**Lleoliad a Ffordd**		**Hyd y ffordd**
2.01.0	**SAUNDERFOOT**		
	C3076		O bwynt 30 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r A478 sy'n ymestyn tua'r gogledd am 476 metr.


5. Bydd gweddill Gorchymyn Cyfuno (Ffyrdd Amrywiol) (Terfynau Cyflymder) Sir Benfro 2023 yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro

Yr **fed diwrnod hwn o **** 2026

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN
CYNGOR SIR PENFRO
yma
ym mhresenoldeb:-
Llofnodwr Awdurdodedig

DRAFT



Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr


Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Proposed extension of existing 20mph limit & reduced length of existing 40mph limit.

Based upon the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO Crown Copyroght. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.

SCALE	1 : 1250
DATE	17/08/2026
DRAWING No.	Pro Ex of 20mph.pdf
DRAWN BY	CAW



Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP
Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Existing Speed limit Restrictions

C3076 SandyHill Road

Based upon the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO Crown

SCALE	1 : 1250
DATE	17/08/2026
DRAWING No.	C3076 EX SL.pdf
DRAWN BY	CAW